**Trawsnewid Trefi**

**Fframwaith Ymyriadau'r Grant Creu Lleoedd – Diwygiwyd Mawrth 2025 – yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025**

Mae'r Grant Creu Lleoedd, sy'n rhan o'r rhaglen Trawsnewid Trefi yn rhoi'r pecyn cymorth ehangaf a mwyaf hyblyg i bartneriaid Awdurdodau Lleol yng Nghymru er mwyn adfywio canol trefi ledled Cymru. Cyfrifoldeb partneriaid rhanbarthol yw penderfynu ar y cyfuniad mwyaf priodol o ymyriadau, a sut y cânt eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer unrhyw ganol tref a flaenoriaethir gan bartneriaid Awdurdodau Lleol.

Mae angen i unrhyw brosiectau i'w cefnogi o'r fframwaith hwn fod yn rhan o Gynllun Creu Lle holistaidd neu uwchgynllun ar gyfer canol tref ac nid ydynt yn cael eu cefnogi fel prosiectau annibynnol. Mae angen i'r ymyriadau hyn fod yn strategol eu natur ac mae angen cynllunio'r gweithgarwch. At hynny, mae angen i'r prosiectau gydblethu yng nghyd-destun Trawsnewid Trefi ac ymyriadau ehangach sy'n digwydd neu wedi'u cynllunio mewn trefi dethol gan gynnwys Tai, Seilwaith Gwyrdd a Digidol, trafnidiaeth yn ogystal ag ymyriadau economi gylchol megis caffis atgyweirio ac ailddefnyddio yng nghanol trefi.

Un ystyriaeth allweddol a phwysig i Lywodraeth Cymru yw bod Cynllun Creu Lle strategol ar waith ar gyfer canol tref ddynodedig. Dylai'r cynllun hwn fod o'r gwaelod i fyny, wedi'i lywio gan y gymuned ac mae angen iddo gynnwys partneriaid allweddol fel AGB, Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau trydydd sector lleol ymhlith grwpiau lleol eraill.

**Uchafswm dyraniad cymorth grant Llywodraeth Cymru i brosiect unigol Creu Lle yw £300,000.** Os caiff y gwaith ei wneud yn raddol a bod y grant yn cael ei ddyfarnu'n raddol, ni chaiff cyfanswm y dyraniad i eiddo unigol fod yn fwy na'r terfyn hwn o £300,000. Os gwelir wedi hynny bod ar y prosiect angen mwy na'r grant o £300,000, rhaid cyflwyno'r cais ychwanegol i Lywodraeth Cymru fel cais strategol. Er mwyn cael mwy na'r grant o £300,000, rhaid i brosiect gael ei ddilysu gan Banel Buddsoddi'r Isadran Lleoedd a'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet. Nid oes gwarant y rhoddir rhagor o gymorth Trawsnewid Trefi.

Os bydd prosiect yn darparu cyfleuster neu adnodd y mae angen gwaith rheoli a chynnal dilynol arno, rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo gynllun tymor hir ar gyfer gwneud hynny.

**Anogir ymgeiswyr i ystyried pob cyllid allai fod ar gael, nid dim ond y Grant Creu Lleoedd, gan gynnwys ffrydiau ariannu penodol Llywodraeth Cymru megis teithio llesol neu'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Dylid ystyried ffynonellau ariannu heblaw am rai Llywodraeth Cymru hefyd.**

Os oes angen unrhyw eglurhad arnoch wrth ddehongli'r isod, neu os oes angen eglurhad arnoch ynghylch a yw'r prosiect yn gymwys, cysylltwch â'ch Rheolwr Adfywio Llywodraeth Cymru lleol.

**Cynlluniau Creu Lleoedd**

Un o'r rhagofynion o ran ariannu gweithgarwch creu lleoedd drwy Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yw bod Cynlluniau Creu Lleoedd priodol ar waith neu'n cael eu datblygu. Dylid cynllunio'r cynlluniau hyn yn unol â 6 egwyddor y siarter Creu Lleoedd: [Comisiwn Dylunio Cymru]

- Pobl a’r gymuned
- Symud
- Tir y cyhoedd
- Lleoliad
- Cymysgedd o ddefnyddiau
- Hunaniaeth

Dylai Cynlluniau Creu Lleoedd ystyried agwedd holistaidd o ran gofynion trefi a dinasoedd ac felly dylent gynnwys yr holl ymyriadau ariannu presennol ac arfaethedig gan Awdurdodau Lleol, gwahanol feysydd portffolio Llywodraeth Cymru a datblygiadau allweddol yn y sector preifat a chyhoeddus. Yn ogystal, ni ddylai cynlluniau creu lleoedd roi eu ffocws i gyd ar gyllid Adfywio Llywodraeth Cymru a dylent nodi’r holl ffynonellau ariannu megis tai, twristiaeth ac iechyd fel enghreifftiau o gyfleoedd i ddangos y buddsoddiad cyfan mewn aneddiadau.

Dylai Cynlluniau Creu Lleoedd fod yn unigryw i bob lle ond dylent fynd i’r afael â’r canlynol:-

- Ardal wedi’i nodi’n glir o fewn canol y dref neu’r ddinas i ddangos ble y bydd ffocws y cymorth i wireddu amcanion y Cynllun Creu Lle. Bydd angen hyn ar gyfer pob anheddiad. Dylid cyfyngu'r ardal ymyriad i ganol creiddiol y dref gyda digon o fanylion i gynnwys strydoedd ac adeiladau/nodweddion tirnod. Dylai’r Cynllun Creu Lle a’i gynlluniau Cyflawni a Gweithredu nodi hefyd y gweithgarwch a'r cyfleoedd datblygu ehangach.
- Manylion y prif randdeiliaid, megis AGB a/neu Gynghorau Tref a Chymuned, sy’n gweithredu yn yr ardal ar hyn o bryd. Cadwch gofnod o'r ymgynghoriad gyda'r grwpiau hyn a hefyd yr ymgynghoriad â phartïon eraill fel Aelodau lleol.
- Tystiolaeth o’r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori cyntaf ac wedi hynny â grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid canol y dref a nodwyd megis pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau anabledd;
- Cyd-fynd â chynlluniau adfer economaidd ehangach, strategaethau rhanbarthol a chynlluniau buddsoddi eraill Llywodraeth Cymru megis trafnidiaeth a theithio llesol;

- Nodi'r materion y dylid mynd i'r afael â hwy sy'n cyfyngu ar botensial llawn canol trefi a/neu gyfleoedd i'w harchwilio megis seilwaith gwyrdd, tai, iechyd, tir y cyhoedd, siopau gwag, a gwelliannau masnachol. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei rannu ar draws meysydd portffolios Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned fel rhan o'r cynllun, lle mae'r gymuned yn cael ei chynnwys ym mhob cam o'r gwaith o ddatblygu a chynnal y Cynlluniau Creu Lle;
- Ystyried y bygythiadau ehangach a achosir gan siopau y tu allan i'r dref, newidiadau o ran arferion defnyddwyr, TAN15, ffosffadau mewn dŵr sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ystyriaethau ehangach o ran Newid Hinsawdd.
- Gweledigaeth a rennir ar gyfer canol y dref a ddatblygwyd drwy ystyried y materion a nodwyd ac adborth o'r broses ymgysylltu; gyda Chynllun Gweithredu y cytunwyd arno.
- Bydd cynlluniau Awdurdodau Lleol yn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer canol y dref a ddiffiniwyd gan ddefnyddio'r technolegau digidol sydd ar gael er mwyn sefydlu isafswm o ran nifer yr ymwelwyr a metrigau amser a dreulir ar ddechrau'r cyfnod ariannu;
- Dylai Cynlluniau Creu Lle fod yn ddogfennau sy'n esblygu a dylid eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd i weld a ydyn nhw'n gyflawnadwy. Dylid cytuno gyda Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid a phartneriaid eraill ar gamau gweithredu trwy ymgysylltu'n gyson â nhw;
- Adolygu a gwerthuso'r gallu i gyflawni a'r camau a nodwyd yn y cynllun gweithredu yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, drwy ymgynghori'n barhaus.
- Adborth a dysgu parhaus yn rhanbarthol ac ar draws Cymru gyfan;

Dylid trafod ymhellach o ran gofynion y Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer eich tref neu ddinas benodol gyda'ch Rheolwr Adfywio perthnasol.

Bydd gwerthuso'n elfen allweddol o'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Trawsnewid Trefi. Er mwyn dangos effaith y Grant Creu Lleoedd bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol lunio adroddiad diweddaru blynyddol (gan gynnwys astudiaethau achos prosiect) i ddangos y prosiectau a gyflawnwyd a'u heffaith ar ganol trefi sydd wedi'u blaenoriaethu.

| **Ymyriad** | **Manylion y Cynllun** | **Ymgeisydd cymwys** | **Cysylltiadau Strategol a Pholisi Allweddol** | **Ymrwymiadau Cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Unedau preswyl yng nghanol trefi**<br><br>Os mai bwriad y cynigion yw darparu tai fforddiadwy neu gymdeithasol, dylai'r ymgeisydd ystyried ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru sy'n benodol at y diben hwnnw, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol trwy gydweithio â landlord cymdeithasol. | Trosi arwynebedd llawr gwag ar y lloriau uchaf mewn llety preswyl newydd. Y gofyniad lleiaf o ran pob cynllun yw fflat hunangynhwysol 1 x 1 ystafell wely.<br><br>Disgwylir i gynlluniau ddarparu llety amrywiol ei faint i ddiwallu ystod o anghenion o ran tai a chyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.<br><br>Dylai cynlluniau gydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR 2021) "Mannau a Chartrefi a Lleoedd Prydferth" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, gan gynnwys diwallu'r "gofynion gwagle" fel y'u nodir yn Atodiad A ac Atodiad B.<br><br>Lle mae cartrefi'n cael eu darparu drwy waith adnewyddu, dylai darparwyr (os yw'n ymarferol ac yn gost-effeithiol i wneud hynny) fanteisio ar bob cyfle i gyrraedd y safon. Lle nad yw hyn yn bosibl a chyn cael caniatâd cynllunio, rhaid dangos i Lywodraeth Cymru fod | Meddianwyr eiddo neu berchnogion eiddo yng nghanol trefi sydd naill ai:<br>• yn berchen ar y rhydd-ddaliad, neu<br>• yn dal les sydd â chyfnod o saith mlynedd o leiaf yn weddill ar y dyddiad talu grant bwriadol, ac sydd wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig. | Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (llyw.cymru)<br><br>Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol Cymru yn realiti: strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)<br><br>Polisi Cynllunio Cymru | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gan gartrefi le a chyfleusterau digonol ar gyfer bywyd pob dydd.<br><br>development-quality-requirements-for-hou<br><br>Os yw'n dderbyniol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, gellir ystyried y posibilrwydd o drosi'r llawr gwaelod, yn ogystal â lloriau uchaf ar gyfer ardaloedd nad ystyrir eu bod yn ardaloedd manwerthu craidd, lle na ellir dod o hyd i unrhyw ddefnydd masnachol amgen.<br><br>Dylid rhoi sylw i Asesiadau o Anghenion Tai lleol awdurdodau lleol wrth ystyried/asesu cynigion prosiect.<br><br>**Yr hyn sydd ddim yn gymwys:**<br><br>• Llety myfyrwyr (ond nid elfennau masnachol datblygiadau y gall ymyriadau eraill yn y fframwaith hwn eu cefnogi);<br>• Nid yw fflatiau un stafell a stiwdios yn gymwys am y grant; | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Nid yw llety gwyliau'n gymwys ond gellid ystyried eu helpu trwy'r Grantiau Gwella Eiddo Masnachol. | | | |
| **Grantiau Gwella Eiddo Masnachol** | Mae'r Grant Gwella Eiddo Masnachol ar gael i wella eiddo masnachol yng nghanol trefi.<br><br>Ei ddiben yw gwella tu blaen adeiladau ynghyd ag uwchraddio arwynebedd llawr masnachol **gwag neu lawn**.<br><br>Rhaid i arwynebedd llawr newydd/wedi'i uwchraddio fod at ddefnydd busnes, a phob cynllun yn cael ei bennu yn ôl ei deilyngdod unigol ac yn ôl disgresiwn swyddogion lleol, ac yna'n cael ei gymeradwyo gan fyrddau prosiect lleol a rhanbarthol. Yn benodol, bydd swyddfeydd, at ddefnydd hamdden annibynnol, manwerthu, bwyd a diod yn cael eu hystyried. Bydd cynlluniau defnydd cymysg hefyd yn cael eu hystyried, ond ni fydd eiddo gosod preifat i fyfyrwyr yn cael eu hystyried. | Meddianwyr neu berchnogion eiddo masnachol yn yr ardal ddynodedig sydd naill ai:<br>• yn berchen ar y rhydd-ddaliad, neu,<br>• yn dal les sydd â chyfnod o saith mlynedd o leiaf yn weddill ar y dyddiad talu grant bwriadol, ac sydd wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.<br>• Ar gyfer prosiectau sy'n derbyn grant o hyd at £100,000, nid oes angen tâl cyfreithiol, felly bydd lês â thair blynedd ohono yn weddill ar ddiwrnod talu taliad olaf y grant yn dderbyniol.<br>• Os cynhelir y prosiect fesul cam a bod y grant yn werth mwy na £100,000, bydd angen o leiaf 7 mlynedd o lês gyda thâl/cyfyngiad. | Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol Cymru yn realiti: strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)<br><br>https://wrapcymru.org.uk/resources/guide/low-carbon-resource-efficient-construction-procurement<br><br>Trywydd ar gyfer Cymru carbon sero net (callc.cymru)<br><br>Gellir ystyried sefydlu 'Caffis Atgyweirio ac Ailddefnyddio' o dan y thema hon lle nad oes llwybrau ariannu eraill ar gael.<br><br>Polisi Cynllunio Cymru | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.<br><br>Galluogi canol ein trefi i ddod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Caiff swyddfeydd neu adeiladau masnachol uwch uwchben unedau manwerthu eu hystyried ar gyfer cymorth hefyd.<br><br>Rhaid i gyllid grant sydd dros £100k a ddyfernir gan ALlau i drydydd partïon gael ei ddiogelu drwy gyfyngiad a thâl cyfreithiol (yn enw'r ALl) i gwmpasu gwerth y grant. Ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, dim ond cyfyngiad sydd ei angen (yn enw Gweinidogion Cymru).<br><br>**Y GWAITH**<br><br>**Effeithiolrwydd Ynni**<br>Dylid ystyried pob cyfle i'r adeilad allu defnyddio ynni'n fwy effeithlon.<br><br>**Gwaith allanol**<br>Gall gwaith allanol i'r adeilad gynnwys gwaith y bernir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer cyfanrwydd strwythurol yr eiddo. Gallai'r eitemau gynnwys:<br>• Tu blaen siopau;<br>• Arwyddion;<br>• Ffenestri a drysau;<br>• Goleuadau allanol;<br>• Toeau a simneiau; | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Nwyddau dŵr glaw (landeri, cwteri a phibellau draenio dŵr);<br>• Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ailbwyntio; a<br>• Gwaith strwythurol.<br><br>**Gwaith mewnol**<br>Gall gwaith mewnol i'r adeilad gynnwys yr holl waith, gweladwy neu strwythurol, sy'n angenrheidiol i gwblhau'r prosiect yn ôl y Rheoliadau Adeiladu. Gallai hynny gynnwys:<br>• Ffenestri a drysau;<br>• Gwell hygyrchedd;<br>• Waliau, nenfydau, goleuadau;<br>• Mesurau Effeithlonrwydd Ynni pan gânt eu cynnwys fel rhan o'r cynllun cyffredinol;<br>• Cyfleustodau a gwasanaethau, gan gynnwys gwresogi;<br>• Cawodydd a chyfleusterau hylendid;<br>• Cyfleusterau storio beiciau<br>• Cyfleusterau lles (e.e. ystafell ymolchi hanfodol a | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chyfleusterau glanhau yn unig); a<br>• Gwaith strwythurol.<br><br>**Adeiladau Newydd**<br>Gallai arwynebedd llawr masnachol mewn adeilad newydd fod yn gymwys, pan fo angen lleol wedi'i amlygu amdano, yn enwedig pan fo safleoedd â bwlch yng nghanol trefi.<br><br>**Llety gwyliau**<br>Gallai llety gwyliau fod yn gymwys, lle gwelir bod angen yn yr ardal amdano, a lle nad oes ffynhonnell ariannu arall. | | | |
| **Seilwaith Gwyrdd** | Darparu prosiectau Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth yng nghanol trefi. Yn benodol ond nid yn unig:-<br>• Waliau Gwyrdd<br>• Toeau Gwyrdd<br>• Gerddi Glaw<br>• Gwyrddu<br>• Parciau Poced<br>• Ardaloedd ar gyfer blodau gwyllt<br>• Coed ar y stryd<br>• System Ddraenio Gynaliadwy (SUDs) | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Meddianwyr neu berchnogion eiddo masnachol yn yr ardal ddynodedig sydd naill ai:<br>  ○ yn berchen ar y rhydd-ddaliad, neu<br>  ○ yn dal les sydd â chyfnod o saith mlynedd o leiaf yn weddill ar y dyddiad talu grant bwriadol, ac | Taflen ffeithiau 1: Golwg gyffredinol ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (llyw.cymru)<br><br>Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol Cymru yn realiti: strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)<br><br>Cynllun Adfer Natur https://llyw.cymru/sites/d | Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn<br><br>Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae mesurau Seilwaith Gwyrdd eraill neu fesurau gwyrddu cyffredinol yn gymwys yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae angen i unrhyw ymyriad fod yn strategol ac wedi'i ategu gan Gynllun Creu Lle a/neu Archwiliad Seilwaith Gwyrdd Canol y Dref.<br><br>Ni fydd y cymorth hwn yn cyfrannu at gostau cynnal a chadw parhaus yn ystod blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. | sydd wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.<br>○ Rhaid i unrhyw brosiect seilwaith gwyrdd o dan arweiniad y sector preifat fod yn rhan o brosiect adfywio ehangach | efault/files/publications/2019-05/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015.pdf<br><br>Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cymru \| Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol<br><br>Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan (lnp.cymru)<br><br>Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Pecynnau Cymunedol https://keepwalestidy.cymru/cy/ein-gwaith/cadwraeth/natur/ | o cymaint â phosibl.<br><br>Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi.<br><br>Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. |
| **Tir y Cyhoedd** | Darparu gwelliannau ar raddfa fach i dir y cyhoedd os yw'n cyd-fynd â chlystyru naturiol o weithgarwch adfywio yng nghanol trefi – lle ceir effaith gymdeithasol ac economaidd amlwg. Yn benodol:-<br>• Tynnu neu ollwng cyrbiau ar gyfer mynedfeydd ac allanfeydd. | • Awdurdodau Lleol.<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned | Polisi Cynllunio Cymru | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.<br><br>Addasu mannau cyhoeddus ar gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Ehangu palmentydd er mwyn darparu mannau eistedd ac amwynder yn yr awyr agored.<br>• Dysglau plannu parhaol a darparu sgriniau.<br>• Celf gyhoeddus fel rhan o gynllun lle ehangach a chynllun tir y cyhoedd ac sy'n cefnogi amcanion diwylliannol, er enghraifft murluniau ar waliau lle nad oes modd cyflawni Gwybodaeth Ddaearyddol.<br><br>Gall mesurau eraill fod yn gymwys i gael cymorth yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.<br><br>**Yr hyn sydd ddim yn gymwys:**<br><br>Prosiectau mawr ar dir y cyhoedd y gellir cael help ar eu cyfer o ffynonellau eraill e.e. a ddarperir fel rhan o gynllun trafnidiaeth.<br><br>Gellir ceisio am arian strategol TT ar gyfer prosiectau mawr ar dir y cyhoedd cyn belled ag y ceir cymeradwyaeth ranbarthol. | | | digwyddiadau awyr agored, marchnadoedd, gwerthwyr stryd, parciau dros dro a pharciau bach.<br><br>Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Caffael Strategol**<br><br>O gael cymeradwyaeth a chan ddibynnu ar faint y gyllideb, gall caffaeliadau strategol a gefnogir trwy Grantiau Creu Lle ddod yn rhan o brosiectau strategol mwy os aiff y cyfanswm a ddyfernir, o gael rhagor o grant, dros £300,000.<br><br>Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y rhoddir rhagor o gymorth Trawsffurfio Trefi, felly bydd | Caffaeliadau ar raddfa fach yng nghanol trefi. Ni ddylid defnyddio'r cymorth hwn i gaffael eiddo sy'n ddarostyngedig i gamau gorfodi, neu a allai elwa arnynt. Yn benodol, gellid defnyddio'r cymorth hwn i:-<br>• Gaffael eiddo i gwblhau'r gwaith o gydosod y tir ar gyfer cynigion strategol mwy.<br>• Caffael eiddo gwag er mwyn gallu ei ddefnyddio eto;<br>• Caffael eiddo i'w ddymchwel er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd a gwella'r athreiddedd yng nghanol trefi.<br>• Defnyddio at ddibenion marchnadoedd/gofal plant/dechrau busnes yn y cyfamser<br>• Caffael eiddo er mwyn darparu mannau gwyrdd, cyfleusterau chwarae neu dir y cyhoedd gwell.<br>• Cymorth ar gyfer costau dymchwel.<br><br>Ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd dros £100,000:<br>• Dylid gosod cyfyngiad yn enw Gweinidogion Cymru ar deitl | • Awdurdodau Lleol.<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Busnesau Cymdeithasol a Chorfforaethau B | Trosglwyddo Asedau Cymunedol: canllawiau i ymgeiswyr \| LLYW.CYMRU<br><br>Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.<br><br>Cynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag.<br><br>Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymgeisydd sy'n bwrw ymlaen â chaffaeliad strategol heb lythyr dyfarnu grant gan Lywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain. | eiddo a gaffaelwyd gan awdurdod lleol;<br>• Mae angen tâl cyfreithiol a chyfyngiad yn enw'r awdurdod lleol sy'n dyfarnu'r cyllid i'w gaffael gan bartïon eraill.<br><br>**Prisio**<br>Rhaid i dirfesurydd sydd wedi'i gofrestru â RICS fod wedi cynnal prisiad (llai na 6 mis cyn dyddiad y cais) | | | |
| **Marchnadoedd Canol Trefi** | Cyflawni'r athroniaeth o 'droi pob tref yn dref farchnad'. Datblygu a galluogi marchnadoedd lleol i ddarparu cynnyrch, crefftau, bwyd a chynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth. Bydd y cyllid cyfalaf yn unig hwn yn darparu:-<br>• cysylltiadau trydan parhaol i alluogi masnachu yn y farchnad.<br>• caffael stondinau a llwyfannau masnachu.<br><br>Rhaid i'r gwaith gydymffurfio a chyd-fynd â chanllawiau arferion gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu marchnadoedd lleol (a baratowyd gan Urban Fountry) . | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned Busnesau Cymdeithasol a Chorfforaethau B | Taflen ffeithiau 1: Golwg gyffredinol ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (llyw.cymru)<br><br>Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol Cymru yn realiti: strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)<br><br>https://www.urbanfoundry.co.uk/wp-content/uploads/urban-foundry-markets-guide-short.pdf | Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Defnydd yn y Cyfamser yng Nghanol Trefi** | Sefydlu defnydd dros dro yn y cyfamser ar safleoedd sy'n wag ar hyn o bryd yng nghanol trefi. Dylai'r cymorth gyd-fynd yn llwyr â Chanllawiau Arferion Gorau Llywodraeth Cymru ar Ddefnydd yn y Cyfamser (a baratowyd gan Urban Fountry) . | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Busnesau Cymdeithasol a Chorfforaethau B | Taflen ffeithiau 1: Golwg gyffredinol ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (llyw.cymru)<br><br>Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol Cymru yn realiti: strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)<br><br>https://www.urbanfoundry.co.uk/wp-content/uploads/meanwhile-space-guide-short.pdf | |
| **Cymorth Masnachu Allanol Canol Trefi** | Darparu seddi, dysglau plannu, gorchuddion, mannau arlwyo a chanopïau yn yr awyr agored. | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Busnesau Canol Trefi<br>• Cynghorau Tref a Chymuned | | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. |
| **Cynlluniau i Wella Blaen Siopau** | Gwelliannau allanol i flaen siopau lle na wneir unrhyw addasiad mewnol na gwaith ailddatblygu. Mae angen targedu eiddo cyfagos neu sydd wedi'i leoli'n agos er | • Meddianwyr neu berchnogion eiddo masnachol yn yr ardal ddynodedig sydd naill ai: | | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mwyn sicrhau màs critigol a mwy o effaith.  Gellir ystyried eiddo unigol yng nghanol ardaloedd llai lle bydd y cynllun yn cael effaith sylweddol yn yr ardal honno. | ○ yn berchen ar y rhydd-ddaliad, neu<br>○ yn dal les sydd â chyfnod o 3 mlynedd o leiaf yn weddill ar y dyddiad talu grant bwriadol, ac sydd wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig. | | gweithio ynddynt. |
| **Trefi Digidol** | Hyrwyddo'r agenda 'trefi digidol' drwy ddarparu eitemau cyfalaf i gefnogi galluoedd seilwaith digidol llinell sylfaen fel dadansoddeg Wi-Fi,  LoRaWAN ac IoT.<br><br>Dylid ystyried sut y gellir integreiddio hyn i ymyriadau eraill fel tir y cyhoedd, Teithio Llesol neu greu mannau gwyrdd newydd.<br><br>Ni fydd buddsoddi mewn seilwaith digidol ar ei ben ei hun yn arwain at unrhyw ganlyniadau, ond bydd cynhyrchu a manteisio ar ddata yn allweddol i lwyddiant hyn.<br><br>Bydd angen i ymyriadau sicrhau newid diwylliant, a (chan weithio | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned. | Hafan \| Trefi Smart Town (smarttowns.cymru) | Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.<br><br>Galluogi canol ein trefi i ddod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol, cynyddu eu cynnig digidol a chefnogi cadwyni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyda Threfi Smart), dangos gwerth data a sefydlu dull “beth mae'r data'n ei ddweud”, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio bob amser fel sylfaen dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau strategol sydd o fudd i'r stryd fawr a thu hwnt.<br><br>Er mwyn sicrhau bod canol trefi yn gweithio tuag at linell sylfaen gydnabyddedig o weithgarwch, bydd yn ofynnol i ALlau enwebu swyddog i ystyried gweithgarwch Trefi SMART gan gynnwys gweithredu, monitro, dadansoddi ac adrodd. Mae angen i unrhyw geisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru gynnwys gweithgarwch sylfaenol digidol o ran nifer yr ymwelwyr a’r amser a dreulir yng nghanol trefi. | | | cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol. |
| **Cefnogi Teithio Llesol** | Darpariaethau sy'n cefnogi neu'n hwyluso llwybrau teithio llesol yng nghanol trefi **pan na ellir ariannu hyn drwy ddulliau eraill**. Yn benodol, darparu cyfleusterau storio beiciau, loceri ac ôl-osod cyfleusterau cawodydd a hylendid ar safleoedd masnachol. | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Busnesau Cymdeithasol a Chorfforaethau B<br>• Partneriaid yn y sector preifat | Mae Canllawiau Deddf Teithio Llesol \| LLYW.CYMRU yn nodi'r safonau a'r gofynion cynllunio ar gyfer seilwaith teithio llesol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu Toiledau** | Cymorth penodol i ddarparu toiledau yng nghanol trefi a dinasoedd. Gall hyn hefyd gynnwys darpariaeth newid ar gyfer babanod a 'lleoedd newid' lle mae angen strategol clir wedi'i nodi.<br><br>Bydd angen nodi yn y cynllun Creu Lle bod yna alw am y ddarpariaeth hon. Rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau y bydd yn darparu'r refeniw ar gyfer y gwaith glanhau a chynnal a chadw. | • Awdurdodau Lleol<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned | Hafan – Un Llais Cymru | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.<br><br>Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. |
| **Cyfleusterau Hamdden** | Darparu cyfleusterau chwarae awyr agored, mannau gemau amlddefnydd (MUGAs) a gweithgareddau hamdden awyr agored.  Bydd angen ymgynghori ar gymorth a ddyfernir drwy'r elfen hon o'r grant Creu Lleoedd yn lleol ac yn rhan o gynllun creu lleoedd. | • Awdurdodau Lleol<br>• Cynghorau Tref a Chymuned | https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cymru-gwlad-lle-mae-cyfle-i-chwarae.pdf<br><br>Pecyn cymorth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae \| LLYW.CYMRU<br><br>Cynllun Plant a Phobl Ifanc \| LLYW.CYMRU | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Chwarae Cymru \| Play Wales<br><br>Hafan – Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk) | |